



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TYDFIL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

PROFFIL LLEOLIAD PROFIAD GWAITH

Adran: Priffyrdd

Lleoliad:

Adran y Priffyrdd
Y Basin
Abercynon
Aberpennar
CF45 4RR

Gwybodaeth am yr Adran

Mae Adran y Priffyrdd yn cynnwys amrywiaeth o dimau bychan sy'n darparu gwasanaeth priffyrdd ar gyfer y sefydliad.

Mae'r timau'n cynnwys:

- Priffyrdd – Arolygydd Gwaith Stryd
- Goleuadau Stryd
- Gweinyddiaeth
- Gweithiwr Priffyrdd

Mae'r gwasanaethau y mae'r adrannau'n eu darparu'n cynnwys:

Swyddogion y Priffyrdd a Goleuadau'r Stryd sydd yn gweithredu archwiliadau diogelwch rheolaidd o'r briffordd er mwyn dynodi eitemau cynnal a chadw y dylid eu cynnwys yn rhaglenni'r dyfodol yn ogystal â materion llai sydd angen sylw ar frys. Bydd angen i bob archwiliad gael eu cofnodi'n fanwl ar gyfer y dyfodol er mwyn pennu cyfradd dirywiad stryd ac i ganiatáu i amddiffyniad gael ei sefydlu mewn perthynas â cheisiadau damweiniau trydydd parti.

- Bydd unrhyw waith sydd angen ei wneud o ganlyniad i archwiliad yn arwain at orchymyn gwaith (electronig) i dîm gweithrediadau'r briffordd a chontractwyr allanol sy'n defnyddio trefniadau cytundebol a threfniadau eraill a ganiateir yn gyfreithiol gan arolygu a phennu gwerth y gwaith sydd angen ei wneud.
- Mae'r tîm yn archwilio ceisiadau ar gyfer gwasanaeth gan gwsmeriaid, AS, AC, Cynghorwyr etholedig, preswylwyr a grwpiau cyhoeddus a lle y mae'n addas ac y bydd cyllideb i wneud hynny, bydd gorchymyn gwaith yn cael ei gynhyrchu er mwyn cywiro'r problemau.
- Mae Deddf Ffordd Newydd a Gwaith Stryd 1991 yn gosod rhwymedigaethau a chyfrifoldebau ar Awdurdod y Stryd (fel arfer Awdurdod y Briffordd,) cwmnïau cyfleustodau ac eraill sy'n gwneud gwaith ar y briffordd. Mae'n rhaid cofrestru, rheoli a chydlynu pob gweithgaredd trwy'n Tîm Gwaith Stryd.

Crynodeb o'r rhaglen Profiad Gwaith a Thasgau posib:

- Dysgwch sut mae'r priffyrdd a goleuadau'r stryd yn cynorthwyo'r Cyngor yn ei weithrediadau o ddydd i ddydd
- Gweithiwr ochr yn ochr ag arolygwyr, gweinyddwyr a gweithwyr er mwyn dysgu sgiliau newydd
- Ffurfiwch ddealltwriaeth o wybodaeth dechnegol cynnal a chadw priffyrdd sylfaenol a phrofiad uniongyrchol
- e.e. prosesu geiriau / Mewnbynnu Data / cofnodion e-bost / cymorth teipio a chynnal a chadw systemau ffeilio perthnasol.
- e.e. Ffens ddiogelwch, tarmacio, creu cyrbiau, palmentydd, waliau, gwaith haearn, draenio, cynnal a chadw yn ystod y gaeaf a gwaith mewn argyfwng.

Meini prawf angenrheidiol

- Brwdfrydig a diddordeb byw mewn cynnal a chadw priffyrdd